

Diwedd Cam 1 prosiect Arsyllfa - diweddariad


Mehefin 2020

Cefndir

Roedd Cam 1 prosiect Arsyllfa yn rhedeg tan ddiwedd Mehefin 2020 ac yn canolbwyntio ar yr asesiad dichonoldeb ac elfen ymgysylltu â rhanddeiliaid y prosiect.

Ceisiodd y cam cychwynnol hwn ddadansoddi ymchwil bresennol a chysylltu â rhanddeiliaid er mwyn llywio'r ail gam (Gorffennaf 2020+) y byddai ganddo seiliau ar gyfer perthnasedd tymor hwy (ar ôl y prosiect) wrth feithrin diwylliant entrepreneuriaidd yn sir Gaerfyrddin.

Fel y cyflwynwyd i'r Grŵp Gweithredu Lleol ar 15 Mai 2019, rhoddwyd yr ymagwedd ganlynol ar waith yn ystod Cam 1 a chyhoeddwyd asesiadau dichonoldeb allweddol ar wefan y prosiect:



D.S. Mae cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol a symud Covid-19 wedi effeithio ar y prosiect, ac wedi golygu ein bod wedi gorfod addasu a newid ein dull yn sylweddol. Mae rhagor o ansicrwydd yn y misoedd nesaf yn golygu bod angen i ni newid ein methodoleg, ailystyried ein blaenoriaethau a'n hamcanion, a bod yn hyblyg ac yn ystwyth. Mae Cam 2 wedi ystyried hyn.

Canfyddiadau i lywio cam 2

Darparodd y cam ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r asesiad dichonoldeb sylfaen wybodaeth gref ar gyfer y Cyfnod 2 arfaethedig (Gorffennaf 2020+) yn ogystal â pharhad posibl yn dilyn dyddiad gorffen y prosiect. Nododd y broses gwmpasu gychwynnol mewn partneriaeth â chwmni ymchwil OB3:

- Ei bod yn ymddangos bod y ddarpariaeth o ran cynghori a darparu gwybodaeth i ddechrau busnes drwy Busnes Cymru yn ddigonol a bod elfennau o'r ddarpariaeth hon (e.e. gweithdai blasu) yn ymestyn i ddarpariaeth cyn-cychwyn.

- Roedd yr un fath yn wir am grwpiau wedi'u targedu megis entrepreneuriaid ifanc, e.e. drwy raglenni fel y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid, sy'n ei gwneud yn anodd gweld pa 'werth ychwanegol' pellach y gellid ei ddarparu ar draws y maes gwaith hwn.
- Fodd bynnag, awgrymwyd y gallai fod lle i ddatblygu 'Academi Entrepreneuriaeth' o fewn y sir, gan ddarparu canolbwynt pwrpasol a chymorth dwys i entrepreneuriaid ifanc, yn enwedig y rhai sy'n gwneud cais am Fwrsariaeth y Bannau neu'n mynd i Fŵt-camp i Fusnesau.

Fel rhan o'r cam cwmpasu cychwynol hwn daeth yn amlwg bod lle i rannu adroddiadau a chanfyddiadau allweddol â rhanddeiliaid entrepreneuriaeth a datblygu gwledig o fewn y sir. Gellir edrych ar y dull o rannu a datblygu gwybodaeth drwy ddull prif ganolfan a lloerennau (melin drafod drwy rwydweithiau) ymhellach a'i ddatblygu o bosibl yng Ngham 2.

Datblygwyd nifer o adroddiadau ymchwil allweddol, a wnaeth helpu gyda sylfaen wybodaeth y tîm prosiect ar gyfer gweithredu dwy elfen glir yng Ngham 2.

Mae asesiadau dichonoldeb o nifer o'r rhain wedi'u rhannu â rhanddeiliaid ar wefan y prosiect ers hynny. Mewn rhai o'r achosion mwyaf perthnasol, cysylltwyd ag awduron yr adroddiad am drafodaeth ehangach. Dyma'r ddwy elfen yr edrychwyd arnynt ar gyfer Cam 2 sy'n arwain o'r gwaith hwn:

- **Elfen 1 - rhwydwaith o ddadansoddiadau a chymorth** - dylai'r elfen hon ddatblygu endid tymor canolig i hirdymor (tebyg mewn sawl ffordd i felin drafod wledig) sydd â'r gallu i symud datganiad cenhadaeth y prosiect yn ei flaen - h.y. meithrin diwylliant entrepreneuraidd. Gan ddefnyddio'r sylfeini cadarn a grëwyd yng Ngham 1, mae lle i'r dull hwn fodoli ar ôl dyddiad gorffen gweithgarwch y prosiect. Bydd yn hanfodol osgoi dyblygu'r ddarpariaeth bresennol yn y sir a chydweithio ar syniadau gyda phartneriaid cenedlaethol, y DU a rhyngwladol.
- **Elfen 2 - gwobr arloesedd fel cronfa masnachu prawf** - mae'r elfen hon yn darparu strwythur sy'n ymgysylltu, yn y tymor byr (o fewn cyfnod y prosiect) yn ogystal ag yn y tymor canolig a'r hirdymor, gan ennyn diddordeb entrepreneuriaid uchelgeisiol sir Gaerfyrddin a'u hannog i feddwl am syniadau arloesol newydd.

Elfen 1 - rhwydwaith dadansoddi a chymorth

Ystyriwyd nifer o gyfeiriadau polisi i ddatblygu'r elfen hon yn ystod Cam 1. Ar lefel ryngwladol, dangosodd '[Gwersi o fframwaith polisi gwledig byd-eang](#)' duediadau cyffredin o wledydd OECD ynghylch materion gwledig. Fel y nodir yn y gwaith, mae'r cyfleoedd ar gyfer ardaloedd gwledig yn deillio o arallgyfeirio'r economi y tu hwnt i amaethyddiaeth a sectorau eraill sy'n seiliedig ar adnoddau naturiol, er mwyn cwmpasu gweithgynhyrchu, gwasanaethau ecosystem, twristiaeth, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, yn ogystal â diwydiannau'r celfyddydau a diwylliant. Gall meithrin entrepreneuriaeth fod yn fwy anodd mewn rhanbarthau gwledig, ond gall canolbwyntio ar nodweddion gwledig unigryw ac asedau lleol penodol ddarparu cyfleoedd ar gyfer syniadau busnes newydd.

Y nod felly yw anelu at hyrwyddo cystadleurwydd yn hytrach na chydaddoli. Roedd yr adroddiad yn dadlau o blaid newid sylfaenol mewn pwyslais oddi wrth sectorau strategol a bennwyd ymlaen llaw, at ddeall cryfderau ac asedau ardal fel y gall arbenigrwydd lleol ac arloesedd lywio datblygiad.

Gan gysylltu â chydweithwyr ym Mhrifysgol Abertawe, ystyriwyd gwaith ymchwil ar yr economi hunaniaeth yn y trafodaethau hefyd. Dangosodd [‘Economi Hunaniaeth - cysyniad modern i Sir Gaerfyrddin fodern’](#) y gallai defnyddio economi hunaniaeth weithio'n dda yng nghyd-destun sir Gaerfyrddin. Wedi'i hamddiffyn, i ryw raddau, rhag grymoedd eithafol globaleiddio, mae sir Gaerfyrddin yn cadw llawer o'r nodweddion sy'n ffurfio economi hunaniaeth gref, fel hanes cyfoethog, diwylliant ac iaith, profiadau unigryw, a hunaniaeth gynyddol o ran bwyd, celf a chrefft.

Roedd ymchwil ehangach a gynhaliwyd yn cynnwys gwaith gan FSB Cymru ar drefi gwledig ([‘Dyfodol Trefi yng Nghymru’](#)) ac adroddiad [‘Symud Sir Gaerfyrddin Wledig Ymlaen’](#) gan Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig Cyngor Sir Gaerfyrddin, sy'n cynnwys 55 o argymhellion ar draws 10 maes allweddol - gan sôn yn benodol am ddiwylliant entrepreneuriaid wrth nodi pobl ifanc.

Yn ystod Cam 1, daeth y tîm Arsyllfa yn fwyfwy ymwybodol bod angen mynd i'r afael â'r problemau a wynebwyd yng nghefn gwlad sir Gaerfyrddin yng nghyd-destun Cymru gyfan. Gan ddefnyddio arferion gorau o siroedd gwledig eraill Cymru, helpodd tîm Arsyllfa i drefnu [‘Gweithdy Gwledig’](#) oedd yn edrych ar agwedd Cymru gyfan at faterion gwledig. Cytunwyd y byddai'r prosiect Arsyllfa yn parhau i hwyluso'r drafodaeth hon i'r dyfodol fel rhan o'i ymdrechion i feithrin proses ffurfio rhwydwaith ehangach.

Ers hynny, cytunwyd y bydd hyn yn cael ei ffurfioli yn ystod Cam 2 fel e-ganolfan mewn partneriaeth â Rhwydwaith Gwledig Cymru. Daeth gwerth edrych ar y sir a'r prosiect yng nghyd-destun ehangach Cymru, y DU ac yn rhyngwladol, yn hytrach nag ar ei ben ei hun, yn fwy llwm wrth i effaith Covid-19 ddod i'r amlwg ar ddiwedd Cam 1.

Cam 2 y camau nesaf yn Efen 1: Yng ngoleuni canfyddiadau allweddol yr asesiad dichonoldeb, teimlid y byddai Cam 2 yr Arsyllfa yn fwy llwyddiannus petai'n cysoni ei gwaith ag agenda economaidd ehangach Cymru wledig drwy ffurfio partneriaeth â'r grŵp egin Rhwydwaith Gwledig Cymru. Byddai hyn yn darparu llwyfan hirdymor i'r prosiect wrth gyflawni gwaith yn sir Gaerfyrddin gan fanteisio hefyd ar yr hyn a ddysgir o bob rhan o Gymru wledig a thu hwnt.

Oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd ar y prosiect yng Ngham 2, o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19 ar symudiadau ac ymgynnull torfol, a'r ffaith mai dim ond tan fis Chwefror 2021 y caniateir estyniad, bydd y prosiect yn cyflwyno'r gwaith hwn i ddechrau o fis Gorffennaf 2020 ymlaen drwy ôl troed ar-lein ac e-ganolfan well.

Elfen 2 - gwobr arloesi fel cronfa masnachu prawf

I ategu'r cynlluniau hyn, mae ail elfen i'w rhoi ar waith yn ystod Cyfnod 2. Mae elfen masnachu prawf y prosiect yn edrych ar ffyrdd o 'feithrin syniadau entrepreneuriaidd newydd' a 'gwneud i bethau newydd ddigwydd'.

Aseswyd nifer o adroddiadau rhyngwladol 'meddwl heb orwelion' yng Ngham 1 yn ogystal ag adroddiadau yn nes at adref megis '[Cymru Wledig: Amser i Ymateb i'r Her 2025](#)' dan arweiniad Eluned Morgan yn ei rôl fel Aelod Cynulliad Rhanbarthol dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru. Roedd y Panel yn cydnabod bod llawer o bethau wedi symud ymlaen ers cyhoeddi'r adroddiad yn 2017, ond roedd yn teimlo bod gwerth o hyd mewn ailystyried ei argymhellion, yn enwedig oherwydd nifer yr arbenigwyr gwledig blaenllaw a gyfrannodd ato ar y pryd.

Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys y casgliad o draethodau gan ymchwilyr arbenigol, llunwyr polisiâu ac ymarferwyr o bob cwr o'r DU a ddaeth at ei gilydd drwy NESTA - y sefydliad arloesi - i greu un adroddiad a elwir yn '[Arloesi Gwledig](#)'. Roedd yr archwiliad hwn o newidiadau parhaus mewn ardaloedd gwledig a'r goblygiadau o ran arloesi yn nodi gwersi pwysig i'w hystyried.

Mae'r traethodau'n nodi tri math o arloesi gwledig: yn gyntaf, ceir arloesi gwledig sy'n cael ei yrru gan 'alw trefol' - megis mwy o ddiddordeb mewn bwydydd iachach, safonau cynhyrchu bwyd gwell, a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Yn ail, gall arloesi gwledig gael ei sbarduno gan 'alw gwledig'. Mae hyn yn cynnwys gwella cynhyrchiant ffermydd, wedi'i alluogi gan offer a phrosesau gwell, a gychwynwyd gan y ffermwyr eu hunain. Mae'r drydedd elfen o arloesi gwledig yn cael ei gyrru gan 'anghenion sylfaenol cyffredinol', lle mae mynediad at wasanaethau cyhoeddus hanfodol, boed hynny'n addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, neu fancio a manwerthu, wedi sbarduno arloesedd mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth yn denau.

Wrth iddo ystyried y ffordd orau o gyflwyno'r elfen hon yng Ngham 2, cyfeiriodd y tîm at ystod o adroddiadau ehangach, gan gynnwys '[Ar ôl Brexit: 10 cwestiwn allweddol o ran polisi gwledig yng Nghymru](#)', a luniwyd gan academyddion o WISERD (dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth) a gododd gwestiynau penodol am arloesi.

Teimlwyd mai'r cwestiynau y dylai prosiectau megis yr Arsyllfa, yn ogystal â llunwyr polisi ehangach, eu holi a'u hateb yn y maes hwn oedd:

- Sut y gall cymunedau fod yn rhan o'r gwaith o hyrwyddo datblygiad economaidd organig mewn ardaloedd gwledig?
- A oes unigolion neu grwpiau dibynadwy a allai gymryd yr awenau?
- Sut y gellir teilwra'r mathau hyn o fentrau i feysydd penodol sydd â hanes ac anghenion amrywiol?
- Sut y gall polisiâu gyfleu gwerth amldeffnydd ardaloedd gwledig?
- Pa ddiwydiannau newydd a allai fod yn enillwyr posibl mewn ardaloedd gwledig dros yr 20 mlynedd nesaf?
- Sut y gellir annog busnesau newydd, arloesol, i sefydlu yng Nghymru wledig?
- Sut y gall Cymru sicrhau bod gan ei gweithlu gwledig sgiliau gwell ar gyfer anghenion y dyfodol yn hytrach na'r gorffennol?
- Sut y gellir cymell cwmnïau i dyfu ac yna aros yn ardaloedd gwledig Cymru?

- Pa wersi y gellid ei dysgu gan ardaloedd gwledig eraill yn y DU a thu hwnt?

Gan ystyried y cwestiynau hyn, bu tîm y prosiect yn ymgysylltu â nifer o randdeiliaid yn ystod y cyfnod ar y ffordd orau o weithredu unrhyw 'gronfa masnachu prawf'. Mae'r ffaith bod gan y prosiect hirhoedledd ac nad yw'n dod yn ymarfer ticio blwch tymor byr yn ganolog i'w lwyddiant. Felly, cymerwyd amser i ymchwilio i Gam 1 a chymryd rhan ynddo er mwyn sicrhau bod yr elfen hon yn addas i'r diben yn y tymor byr, canolig a hir (h.y. ar ôl diwedd y prosiect).

Un enghraifft o'r ymgysylltu hwn ar lawr gwlad oedd arddull grŵp ffocws [gweithdai](#) a oedd yn trafod materion allweddol gyda chynulleidfa darged o entrepreneuriaid ifanc sydd ar hyn o bryd yn astudio ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Defnyddiodd dîm y prosiect sawl canfyddiad diddorol am y gwaith maes hwn. Yn enghraifft hon y grŵp ffocws, roedd sylwadau allweddol nodedig a oedd yn sail i feddylfryd Cam 2 y tîm yn cynnwys y canfyddiad o **gystadleuaeth ddiangen rhwng gwasanaethau cymorth** sy'n ceisio helpu entrepreneuriaid, gan ei gwneud yn ddryslyd i unigolion o ran pwy i fynd ato i gael beth. **Ystyriwyd biwrocratiaeth lywodraethol hefyd fel rhwystr** a oedd yn atal entrepreneuriaid rhag symud ymlaen. Ystyriwyd sylwadau ehangach hefyd, gan gynnwys yr awgrym y dylid darparu 'cymorth' prosiect yn uniongyrchol a heb fod yn fiwrocrataidd a oedd yn cynnwys 'galwad agored' am syniadau arloesol newydd a dull hawdd o gael gafael ar gymorth.

Cam 2 y camau nesaf yn Elfen 2: Gan ystyried y canfyddiadau o Gam 1 mae'r tîm Arsyllfa ar hyn o bryd yn y broses o gwblhau gwobr arloesi sy'n anelu at feithrin entrepreneuriaeth yn y sir. Amlinellir papur gwaith drafft o'n syniadau presennol yn Atodiad A.